



Cynnwys


Gweithgaredd	Tudalen
Cwis 1	3
Pâr Enghraifft – Ymarfer 1	4–5
Cwis 2	6
Sialens Diagram Venn	7
Pâr Enghraifft – Ymarfer 2	8–9
Cwis 3	10
Trawsfudo'r Triongl	11
Pâr Enghraifft – Ymarfer 3	12–13
Cwis 4	14
Cwis 5	15
Pâr Enghraifft – Ymarfer 4	16–17
Cwis 6	18
Cyfrifianellau Hari	19



Cwis 1



1) Mesurwch yr ongl isod.



2) Ysgrifennwch y 5 rhif sgwâr cyntaf.

3) Lluniadwch linellau paralel.

4) Mae Amy yn prynu cacen am £1.35 ac yn talu gyda phapur £5. Faint o newid bydd Amy yn ei dderbyn?


5) Beth yw amrediad y rhifau canlynol?

5, 7, 10, 3, 5

6) $7^2 - 2^3$

7) $7584 + 737$

8) Ychwanegwch linellau cymesuredd i'r siâp isod.



9) Sawl munud sydd mewn 3 awr?

allan o 9



Enghraifft 1




Lluniwch ddiagram amllder ar gyfer y data canlynol sy'n dangos pwysau 18 o gŵn.

Pwysau, p kg	Amllder
$0 \leq p < 5$	5
$5 \leq p < 10$	3
$10 \leq p < 15$	4
$15 \leq p < 20$	6

Amllder


Diagram Amllder i ddangos
pwysau 18 o gŵn





Lluniwch ddiagram amllder ar gyfer y data canlynol sy'n dangos yr oriau o heulwen yn Rhyl dros bythefnos.

Oriau o heulwen, h awr	Amllder
$0 \leq h < 2$	1
$2 \leq h < 4$	4
$4 \leq h < 6$	3
$6 \leq h < 8$	6





Cwis 2



1) Beth yw cymedr y rhifau canlynol?


5, 7, 10, 3, 5

2) Beth yw gwerth y 6 yn y rhif 326,177?

3) 34.74×1000

4) Eglurwch sut i adnabod lluosrif 5.

5) Beth yw trefn cymesuredd cylchdro'r siâp isod?



6) Sawl diwrnod sydd ym mis Chwefror?

7) Os yw 10 potel o ddiod yn costio £12, faint fydd 3 potel yn ei gostio?


8) Pa fath o ongl yw'r ongl 340° ?

9) 8×12

allan o 9



Sialens Diagram Venn



Meddyliwch am rif a fyddai'n gallu mynd i bob rhanbarth. Os ydych yn meddwl bod rhanbarth yn amhosibl i'w lenwi, eglurwch pam!











Enghraifft 2



Lluniwch siart cylch ar gyfer y data canlynol am hoff liw dosbarth 7E.

Lliw	Amllder
Piws	6
Coch	10
Glas	3
Pinc	5

$$6 + 10 + 3 + 5 = 24$$

Mae 24 o ddysgwyr i gyd

$$\begin{array}{r} 015 \\ 24 \overline{) 336} \end{array}$$

Siart Cylchi
ddangos hoff liw 7E

$$\begin{array}{r} 15 \\ \times 6 \\ \hline 90 \\ 3 \\ \hline \end{array} \quad \begin{array}{r} 15 \\ \times 5 \\ \hline 75 \\ 2 \\ \hline \end{array}$$

Piws $15^\circ \times 6 = 90^\circ$

Coch $15^\circ \times 10 = 150^\circ$

Glas $15^\circ \times 3 = 45^\circ$

Pinc $15^\circ \times 5 = 75^\circ$

$$\begin{array}{r} 360^\circ \\ \underline{21} \\ \end{array} \checkmark$$





Lluniwch siart cylch ar gyfer y data canlynol am hoff liw dosbarth 7R.

Lliw	Amllder
Gwyrdd	8
Melyn	5
Oren	4
Glas	3





Cwis 3




1) Pa fath o ddata sy'n rhifau wedi cael eu mesur?

2) 73.84×8

3) Pa rif sydd pump yn llai na thair mil a dau?

4) Lliwiwch 25% o'r grid isod:



5) Cyfrifwch faint yr ongl goch.




6) $6^2 + 8^2$

7) Sut fyddai'r fector colofn $\begin{pmatrix} -2 \\ 5 \end{pmatrix}$ yn symud siâp?


8) 10% o 371

9) Ysgrifennwch 4,072 mewn geiriau.



1) Ysgrifennwch y factor colofn sy'n trawsfudo'r triongl A i'r triongl B.

2) Ysgrifennwch y factor colofn sy'n trawsfudo'r triongl B i'r triongl A.



3) Lluniwch drawsfudiad o'r triongl A gan ddefnyddio'r factor colofn $\begin{pmatrix} 1 \\ -4 \end{pmatrix}$.

4) Lluniwch drawsfudiad o'r triongl B gan ddefnyddio'r factor colofn $\begin{pmatrix} 2 \\ 2 \end{pmatrix}$.





Enghraifft 3



Mae'r tabl canlynol yn dangos maint esgid dysgwyr 7E.

Maint esgid	Nifer o blant
3	3
4	6
5	8
6	6
7	2

Cyfrifwch gymedr maint esgid dysgwyr 7E.

$$3 + 6 + 8 + 6 + 2 = 25$$

$$3 \times 3 = 9$$

$$4 \times 6 = 24$$

$$5 \times 8 = 40$$

$$6 \times 6 = 36$$

$$7 \times 2 = 14$$

$$\begin{array}{r} 14 \\ + 36 \\ + 40 \\ + 24 \\ + 9 \\ \hline 123 \\ \hline 2 \end{array}$$

$$123 \div 25$$

$$= 4.92$$

Y cyfwr

Mae 25 o ddysgwyr i gyd

Cyfanswm maint esgid pawb



Mae'r tabl canlynol yn dangos maint esgid dysgwyr 7C.

Maint esgid	Nifer o blant
4	1
5	3
6	6
7	7
8	3

Cyfrifwch gymedr maint esgid dysgwyr 7C.





Cwis 4



1) $0.017 \div 10$


2) Pa ganran o'r siâp isod sydd wedi'i liwio?



3) Gwnewch lun o ongl atblyg.

4) Cyfrifwch 30% o £163

5) Beth yw enw'r siâp isod?




6) 11^2

7) A fydd y flwyddyn 2064 yn flwyddyn naid?

8) Sawl munud sydd rhwng 11:45 am a 1:35 pm?

9) Pa fath o droad sy'n cael ei ddangos?



allan o 9



Cwis 5



10% $\circ 50 =$	$6 \times 4 =$	$12 + 9 =$	$14 - 8 =$	$3^2 =$
$2 \times 9 =$	50% $\circ 70 =$	$7^2 =$	$23 + 16 =$	$27 - 6 =$
$10^2 =$	$6 \times 8 =$	20% $\circ 15 =$	$31 - 9 =$	$43 + 18 =$
$40 - 11 =$	$9^2 =$	$9 + 27 =$	$8 \times 7 =$	25% $\circ 24 =$
$9 \times 6 =$	10% $\circ 43 =$	$50 - 24 =$	$1^2 =$	$44 + 14 =$

allan o 25



Enghraifft 4



Mae Rhys yn prynu darn o gelf am £2,500.

Mewn blwyddyn mae gwerth y darn o gelf wedi cynyddu 17%. Beth yw gwerth newydd y darn o gelf?

10%
1%
7%

$$£2,500 \div 10 = £250$$

$$£250 \div 10 = £25$$

$$\begin{array}{r} 25 \\ \times 7 \\ \hline £175 \\ \hline \end{array}$$

17%

Adio'r
10% a'y 7%

Gwerth
Newydd

Gwerth
gwreiddiol
+ cynnydd

$$\begin{array}{r} 250 \\ + 175 \\ \hline £425 \\ \hline \end{array}$$

$$\begin{array}{r} 2500 \\ + 425 \\ \hline £2925 \\ \hline \end{array}$$



Ymarfer 4

Mae Cerys yn prynu darn o gelf am £1,400.
Mewn blwyddyn mae gwerth y darn o gelf wedi cynyddu
24%. Beth yw gwerth newydd y darn o gelf?




allan o 4



Cwis 6



1) Lluniadwch ongl 38° ar y llinell isod.



2) Beth yw cymedr y rhifau canlynol?

5, 4, 12, 3, 6, 6

3) Beth yw amrediad y rhifau canlynol?

5, 4, 12, 3, 6, 6


4) 70% o 63

5) $5^3 - 6^2$

6) Gwnewch lun o betryal.


7) Pa rif sydd hanner ffordd rhwng 8 ac 13?

8) Ysgrifennwch yr amser yn y cloc 24 awr.




9) Ysgrifennwch enghraifft o ddata ansoddol.

allan o 9



Cyfrifianellau Hari



Mae Hari yn prynu 60 o gyfrifianellau.

Mae'n talu £3 yr un am bob cyfrifiannell.

Mae'n gwerthu 50% o'r cyfrifianellau am £5 yr un.

Mae'n gwerthu 20% o'r cyfrifianellau am £4 yr un.

Beth allwch ei gyfrifo o'r wybodaeth yma?



Adolygu'r Pecyn



Nodiadau



@mathemateg



/adolygumathemateg



/mathscreuddyn



www.mathemateg.com